**Prifysgol Bangor**

**Tystysgrif Cymraeg Gwaith**

## Lefel 1

Ynganu enwau pobl ac enwau lleoedd/adeiladau/adrannau yn gywir
Cyfarch a ffarwelio, ymadroddion sylfaenol
Deialog/set o ymadroddion syml sy'n berthnasol i'r swydd e.e.:
Uwch-reolwyr - agor a chau cyfarfod yn Gymraeg
Derbynfa - trosglwyddo galwad ffôn
Llyfrgell – adnewyddu llyfr wrth y ddesg

**Lefel iaith: Mynediad 1 (8-10 awr o ddysgu)**

## Lefel 2

Mae Lefel 2 mewn dwy ran:

**Rhan 1** (yr un fath i bawb)
Rhifau, dyddiau'r wythnos, amser cyfarfod, teitl swydd/adran
Set o ddeialogau penodol yn defnyddio chi, ti, yn cynnig panad/ trefnu cyfarfod
Defnydd syml o'r gorffennol a'r presennol
Ymateb yn syml i gwestiynau am y gwaith: ydw, ydy, do, iawn
Creu neges syml 'allan o'r swyddfa' gan ddefnyddio templed, gosod yn ddwyieithog a newid y dyddiad

**Rhan 2** (teilwra ar gyfer y swydd)
Set o tua 20 o ymadroddion/brawddegau sy'n cael eu defnyddio yn aml gan yr aelod o staff yn ei swydd wrth ddelio efo pobl eraill
Deialog/sefyllfa wedi'i sgriptio gyda'r aelod o staff ymlaen llaw
Cyfeirio rhywun i ran arall o'r adeilad/safle (gweinyddwyr)
neu
Ysgrifennu e-bost syml yn trefnu cyfarfod efo staff/cydweithiwr (uwch-reolwyr)

**Lefel iaith: Mynediad 2 - cyn neu ar ôl arholiad Mynediad**

## Lefel 3

Cyfres o 6 deialog – wyneb yn wyneb a dros y ffôn - wedi'u seilio ar sefyllfaoedd sy'n codi yng ngwaith yr unigolyn.
Pob deialog wedi'u sgriptio ymlaen llaw gyda'r aelod o staff, ond dim rhaid iddyn nhw gadw yn union at y sgript yn y prawf.
Dau o'r deialogau yn cael eu gosod yn y prawf (heb i'r ymgeisydd wybod ymlaen llaw pa rai).
Y tiwtor yn gofyn 2 gwestiwn gwaith ar ddechrau'r prawf: Be' wnaethoch chi yn y gwaith ddoe / Be' dach chi'n 'neud yn y heddiw/yfory?

Ysgrifennu 3 e-bost byr (cyn y prawf llafar yn eu hamser eu hunain) yn ymwneud â'r swydd e.e. neges allan o'r swyddfa; trefnu cyfarfod efo cydweithiwr; un e-bost yn ymateb i neges oddi wrth y tiwtor.
Gellir amrywio deunydd y lefel yn ôl gofynion y swydd e.e. llyfrgell – hepgor yr e-byst a gosod 7 deialog wrth y ddesg a 2 dros y ffôn

**Lefel iaith: Sylfaen – cyn neu ar ôl arholiad Sylfaen**

## Lefel 4

Gallu delio efo nifer o wahanol ymholiadau/sefyllfaoedd, gan gynnwys:

Sgwrs wyneb yn wyneb
- Sgwrs anffurfiol gyda'r tiwtor am y gwaith
- Sgwrs anffurfiol gydag un o'r cydweithwyr

Sgwrs dros y ffôn
- Aelod o staff yn ffonio i holi am y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- Ymgeisydd yn ffonio cydweithiwr i drefnu cyfarfod neu i drafod darn o waith

Tasgau ysgrifennu
- Llunio rhestr syml / set o nodiadau syml sy'n berthnasol i'w gwaith
- Llunio neges e-bost anffurfiol at gydweithiwr (yn ymwneud ag elfen ar eu gwaith).

Gall y dysgwr ymarfer y sefyllfaoedd ymlaen llaw ond heb wybod yn union pa gwestiynau fydd yn codi a beth yn union fydd y cynnwys - dim sgript

**Lefel iaith: Canolradd – cyn neu ar ôl arholiad Canolradd**

## Lefel 5

Sgwrs wyneb yn wyneb
- Sgwrs anffurfiol gyda rhywun yn y swyddfa
- Sgwrs gyda'r tiwtor – siarad am y gwaith (tiwtor yn holi am y gwaith)
- Aelod o staff yn galw yn y swyddfa (sgwrs heb ei pharatoi ymlaen llaw)

Sgwrs ar y ffôn
- Ffonio rhywun allanol e.e. aelod o staff mewn adran wahanol i gadarnhau rhywbeth
- Aelod o staff mewn swyddfa arall yn ffonio i drafod rhywbeth ( sgwrs heb ei pharatoi)

Ysgrifennu/darllen a deall
- Ysgrifennu e-bost anffurfiol i aelod o staff yn trefnu cyfarfod i drafod digwyddiad
- Eitem ffurfiol (e.e. Agenda, neges e-bost i grŵp o staff)

## Lefel 6

Fel yr uchod ond disgwyl mwy o gywirdeb/rhuglder/gwell ddealltwriaeth nag yn lefel 5
Angen marc uwch i lwyddo
Cywiro darn o Gymraeg sy'n cynnwys gwallau
Cynnwys elfen mentora – helpu staff eraill i ddysgu pethau gweithle ar lefel sylfaenol

**Lefel iaith: Uwch 2 – Ar ôl arholiad Uwch**

## Lefel 7

Cyflwyniad / cyfweliad / cyfarfod (go iawn) – sy’n berthnasol i’r swydd
Siarad efo grŵp o bobl (e.e. myfyrwyr, aelodau’r tîm, dysgwyr)
Trafod darn o waith efo cydweithiwr – os yn bosib rhywun sy wedi bod yn siarad Saesneg efo’r ymgeisydd hyd yn hyn
Sesiwn mentora efo aelod o’r staff sy’n dysgu Cymraeg – neu gynorthwyo tiwtor mewn sesiwn dysgu efo grŵp o ddysgwyr
Yr un tasgau ysgrifennu â lefel 5 ond i’w gwneud mewn amser penodol (1 awr) yn ystod y prawf

**Lefel iaith: Hyfedredd**